OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 634 (Cy.70)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*15 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*18 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*8 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**), ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2013.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Prif Reoliadau

2.—(1) Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 ar ôl y diffiniad o "permanent resident" mewnosoder—

"personal independence payment" means personal independence payment under Part 4 of the Welfare Reform Act 2012;"(**4**).

(**1**) 1948 p. 29.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o'r Ddeddf Cymorth Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) O.S. 1992/2977.
(**4**) 2012 p. 5.